# Merched yn yr Ail Ryfel Byd

## ELUNED O LANBERIS



Mae pethau wedi newid! Mae bywyd bron â bod yn braf - er gwaetha'r rhyfel! Swnio'n od tydi?

Ond oni bai am y rhyfel, yn y tŷ yn glanhau faswn i. Rwan dw i'n gweithio fel clerc mewn ffatri, yn cael cyflog o £2 yr wythnos ac yn gallu cymdeithasu yn lle bod yn gaeth rhwng pedair wal.

Ar y tir fel 'land girls' mae rhai o fy ffrindia yn gweithio ac wrth eu bodd yn cael cyfarfod pobl eraill.

Mae'r ferch yn cael mwy o sylw nac erioed o'r blaen. Yn America mae Rose Will Monroe o Kentucky wedi dod yn seren ffilm propaganda. Fel miloedd o Americanwyr mae wedi cael gwaith rhyfel - gwneud bomiau mewn ffatri yn Michigan, 400 milltir o'i chartref. Cael gweld y byd!

## MARILYN MORRIS O EFROG NEWYDD




Mae bywyd yn annioddefol. 'Dw i wrthi fel lladd nadroedd mewn ffatri arfau, heb ddim seibiant. Does gen i neb i warchod y plant a'r unig ddewis sydd gen i ydy eu gadael yn y garafan. Mae parc carafanau anferth wedi tyfu wrth ymyl y ffatri ac yno rydyn ni ferched yn byw. Mae'n afiach.

$7.81 yr wythnos rydw i'n ennill tra mae'r dynion yn cael $13.56. Mae'n hollol annheg.

'Dw i'n nerfus yn y ffatri oherwydd mae'r merched a'r dynion eraill yn galed ac yn gas ac maen nhw'n rhegi bob yn ail air. Ddoe taflodd y rheolwr frws tuag ataf a dweud, 'Hei! Cymer hwn a gwna rywbeth yn lle **** eistedd fan'na!'

Daeth yn ei ôl ymhen tri deg munud a 'nghael yn eistedd ar focs. Roedd yn gandryll a sgrechiodd, 'Cod o dy din y bitsh!'

Sefais fy nhir a dywedais, 'Unwaith yr egluri di beth sydd eisiau i mi ei wneud fe wna i o.' Cododd hynny ei wrychyn ac atebodd fi gyda rhes o regfeydd mwyaf afiach. Ro'n i mor flin fel y rhoddais glustan iddo ar draws ei wyneb.

Yna mwmiodd ryw fath o ymddiheuriad a dangosodd i mi sut i weithio pedalau peiriant. Ar ddiwedd y sifft honno es adre a beichio crio.

## SARAH O FRYSTE

Dawnswraig broffesiynol o'n i cyn y rhyfel ond nawr 'dwi'n drilio alloy sheets mewn ffatri gwneud awyrennau ac mae'n gas gen i e.

Does dim awyr iach yn y gweithle, mae'r bwyd yn codi cyfog arna i, mae'r dŵr o'r lloriau gwlyb yn treiddio i mewn i'm clocsiau pren, mae'r rheolwr yn fwli, y merched eraill yn gegog ...



## PETRA O RWSIA

Dydw i ddim yn meddwl y galla i gario ymlaen ddim mwy. Rydyn ni, ferched, yn gorfod gwneud tasgau sydd yn llawer rhy anodd i ni. Rydw i'n gorfod gwisgo harnes i dynnu llwythau trym yn y caeau - gwaith ceffyl neu ychen.

Dydy hi ddim gwell ar y merched sy'n milwyr oherwydd maen nhw'n cael eu camdrin yn rhiwiol ac yn cael eu gorfodi i gysgu gyda'r swyddogion.

Mae'r merched sy'n filwyr yn yfed fodca ac yn meddwi ac wedyn yn cael eu treisio.

